John Henry Newman 1801–1890

Diwinydd Catholig a Chardinal

Ganwyd John Henry Newman yn y City yn Llundain ar 21 Chwefror 1801 i deulu lled gefnog. Roedd ei dad John yn fancwr a'i fam Jemima o dras Ffrengig Hugenotaidd. John Henry oedd yr hynaf o chwech o blant. Fe'i hanfonwyd i ysgol fonedd Ealing lle y cafodd amser wrth ei fodd hyd nes i fanc ei dad orfod cau yn ystod y rhyfeloedd Napoleonaidd. Yn y cyfnod hwn, Rhagfyr 1816, cafodd dröedigaeth o dan ddylanwad un o'r ysgolfeistri sef y Parch. Walter Mayers. Dechreuodd ddarllen yn helaeth lyfrau a effeithiodd yn fawr arno gan gynnwys hunangofiant Thomas Scott, *The Force of Truth* (1779), *History of the Church of Christ* (1794-1809) gan Joseph Milner a *Dissertation on the Prophecies* (1754-8) gan Thomas Newton. O ganlyniad i'w dröedigaeth credai fod Duw yn ei alw i fod yn ddi-briod ac yn rhan efallai o waith cenhadol.

Pan oedd yn 16 oed ym 1817 aeth i Goleg y Drindod, Rhydychen, ac yna ym 1822 i Goleg Oriel. Fe'i hordeiniwyd fel diacon ym 1824 a'i benodi yn giwrad yn St Clement yn un o blwyfi Rhydychen. Ymrodd i waith yr eglwys ac yn raddol fe newidiodd ei safbwyntiau diwinyddol. Ym 1826 fe'i penodwyd yn diwtor yng Ngholeg Oriel. Datblygodd ddiddordeb mawr yn nhadau'r eglwys ac aeth ati'n frwdfrydig i ddarllen eu gweithiau. Daeth ar draws athrawiaethau a ddysgwyd gan yr eglwys gynnar a sylwodd yn arbennig ar y pwyslais a roddid ganddynt ar sacramentau ac olyniaeth apostolaidd a oedd erbyn hynny yn cael eu diystyru gan yr Anglicaniaid. Penodwyd ef yn ficer St Mary's, Eglwys y Brifysgol. Ym mis Rhagfyr 1832 aeth ar daith gyda chyfaill iddo i wledydd Môr y Canoldir ac fe gafodd Rhufain argraff ddofn arno. Yn y cyfnod hwn ysgrifennodd ei emyn enwog 'Lead, kindly Light'. Pum niwrnod wedi iddo ddychwelyd i Loegr fe bregethodd Keble ei bregeth enwog sef *National Apostasy* oedd yn protestio yn erbyn ymyrraeth y wladwriaeth gydag Eglwys Loegr. Ystyriai Newman y bregeth hon fel dechreuad Mudiad Rhydychen (Oxford Movement). Bwriad y mudiad hwn oedd diwygio Eglwys Loegr trwy ei thywys yn ôl i'w gwreiddiau ac at athrawiaethau oedd wedi eu diystyru ers y Diwygiad Protestannaidd.

Dechreuodd hyrwyddo'i safbwynt newydd trwy gyhoeddi tractiau yn cynnwys y *Lyra apostolica* ac erthyglau a gyhoeddwyd yn ddiweddarach o dan y teitl *The Church of the Fathers* (1840). Ynddynt pwysleisiwyd adenedigaeth trwy'r bedydd a gwir bresenoldeb Crist yn Swper yr Arglwydd. Rhai o'i gyhoeddiadau pwysicaf a gafodd ddylanwad eang oedd y *Parochial Sermons* a gyhoeddwyd rhwng 1834 a 1842.

Yr oedd yn gwbl argyhoeddedig fod yr Eglwys Gatholig Rufeinig wedi cadw at lawer iawn o athrawiaethau Cristnogol a wrthodwyd gan y Protestaniaid. Er hynny, credai fod yr Eglwys Gatholig Rufeinig wedi ychwanegu athrawiaethau na ellid eu cyfiawnhau ar sail Beiblaidd. Dechreuodd rhai Anglicaniaid, oherwydd safbwynt Newman, droi at yr eglwys Babyddol. Yn y cyfnod hwn datblygodd yr hyn a alwai yn *Via Media*. Pwysleisiai yma fod yr eglwys Anglicanaidd yn dir canol rhwng Pabyddiaeth a Phrotestaniaeth.

Yna, yn *Tract Ninety* a gyhoeddwyd ym 1841, dywedodd Newman y credai y dylid deall y Deugain Erthygl Namyn Un (Thirty Nine Articles of Religion) o safbwynt Catholig. Wrth ddweud hyn tynnodd nyth cacwn am ei ben. Fe'i rhyddhawyd o rai cyfrifoldebau a gofynnodd yr esgob iddo beidio ag ysgrifennu rhagor o dractiau. Bellach roedd mewn cyfyng-gyngor enbyd a phenderfynodd ymddiswyddo o'i gyfrifoldebau yn St. Mary's. Symudodd ef a rhai cyfeillion i bentref y tu allan i Rydychen. Yno, parhaodd i gyhoeddi a datblygu ei syniadaeth a'i athrawiaeth ac yn y diwedd wedi brwydr fewnol hir ym 1845 ymddiswyddodd fel Cymrawd yng Ngholeg Oriel a phenderfynodd ymuno â'r Eglwys Gatholig. Treuliodd flwyddyn yn Rhufain yn hyfforddi i fod yn offeiriad Pabyddol ac fe'i hordeiniwyd ar 30 Mai 1847. Ymddiddorodd yn Sant Philip, sefydlydd yr Oratoriaid, a sefydlodd gangen o dan fendith y Pab Pius IX yn un o faestrefi Birmingham. Yno ymrodd i'w waith fel offeiriad gan barhau i ysgrifennu. Cyhoeddodd yr *Apologia pro Vita Sua* a ystyrid gan rai yn un o'r campweithiau mwyaf ers Cyffesion Awstin Sant. Ym 1879 fe'i gwnaed yn gardinal gan y Pab Leo XIII. Bu farw ar 11 Awst 1890 yn Birmingham a chladdwyd ei weddillion mewn mynwent breifat wrth ymyl capel yr Oratoriaid, Rubery.